# Cau'r Bwlch

## Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

Tachwedd 2010














CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk/cyflogaethmeirionnydd

Adran Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon LL55 1SH



# Cynnwys


- Cyflwyniad 3
- Rhagair 5
- Nod ac Amcanion 7
- Daearyddiaeth y cynllun 9
- Cyflogaeth Meirionnydd – y darlun presennol 12
    - Y Gweithlu Posib
    - Swyddi a Strwythur Cyflogaeth
    - Sefyllfa Ffyniant yr Ardal
- Y Rhaglen Waith 27
- Anecs Data
- Anecs Gwybodaeth Strategol ac Ymchwil

# Cyflwyniad

Mae'r traddodiad gwaith ym Meirionnydd yn un hir ac anrhydeddus - o ffermio'r oesoedd cynnar ar lethrau Ardudwy i'r mwyngloddio aur, llewyrch y diwydiant gwlân a'r chwareli llechi yn eu hanterth, i gyfnod y diwydiant amddiffyn, ac wrth gwrs bu Atomfa Trawsfynydd yn ganolbwynt i chwyldro technolegol yr 1960au. Yn hyn i gyd bu Meirionnydd ar flaen y gad yn economaidd, gyda gwaith yma i filoedd lawer!

Mae'r bwrlwm diwydiannol yma yn y gorffennol bellach, ac mae heriau dwys yn wynebu economi a chymunedau Meirionnydd, gyda diffyg gwaith yn golygu fod pobl ifanc a theuluoedd yn gadael.

Mae'r ddogfen hon yn dadorchuddio maint yr her economaidd, ond hefyd y cynlluniau sy'n cael eu datblygu i geisio gosod seiliau i gyflogaeth y dyfodol.

Mae cynrychiolwyr etholedig Meirionnydd wedi gafael yn yr her, a hynny yn arwydd o frwdfrydedd a phenderfyniad yr ardal i sicrhau gwaith a dyfodol llewyrchus i'w phobl.

Wrth ateb yr her ein huchelgais yw cau'r bwlch ffyniant efo ardaloedd eraill, gan sefydlu Meirionnydd fel ardal o ragoriaeth ym meysydd gwaith y dyfodol. Mae Meirionnydd wedi hen brofi ei gallu i addasu i dderbyn diwydiannau newydd, ac fe ddylai sefyllfa'r ardal rhwng sefydliadau ymchwil dwy brifysgol a'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ei gosod mewn man ffafriol i fanteisio eto ar arloesedd economaidd.

Mae i'r ardal gyfleon pendant : mae adnoddau dŵr, tir a choedwigaeth yr ardal yn rhai arbennig sy'n cynnig sail i ddiwydiannau newydd yr economi werdd – gyda'r is-adeiledd ar gyfer dosbarthu trydan hefyd yn adnodd penigamp ar gyfer sefydlu gweithfeydd cynhyrchu ynni amgen.

Mae cyflenwad o hen safloedd gwaith ac adeiladau segur ar gael ac yn addas i'w hail-ddatblygu ar gyfer amrywiaeth o waith a busnesau – ac mae tirlun archaeolegol yr hen ddiwydiannau, ac olion y cynoesoedd, yn etifeddiaeth ragorol ar gyfer datblygu gwerth uchel o fewn y diwydiant ymwelwyr yn lleol.

Mae harddwch Meirionnydd a'i thirlun naturiol godidog a dramatig wedi denu ymwelwyr erioed, gyda'r mynyddoedd, ceunentydd, moroedd ac afonydd yn rhai sydd hefyd yn cynnig yr her i fodloni awch ymwelwyr yr 21fed Ganrif am chwaraeon anturus.

Mae amaeth yn parhau yn gonglfaen i gynhyrchu bwyd a diod o'r ansawdd uchaf, gyda chyfleon o hynny i ychwanegu at werth y mentrau gastronomig sydd eisoes yn britho'r ardal.

Mae'r diwylliant cyfoes Cymraeg yn fyw yn yr ardal, gyda phobl ifanc yn mynegi eu creadigrwydd trwy air, celf a chân, a thrwy eu parodrwydd i ystyried mentro i fyd busnes.

Fe welir felly fod yma gryfderau, ac mai ardal sydd heb gyrraedd ei llawn botensial sydd yma, ond ardal hefyd lle mae'r farchnad wedi methu creu'r atebion, ac ardal sydd o'r herwydd wedi ei gwanhau yn ddifrifol ac angen cymorth os am gydio yn y cyfleon.

Mae arwyddion cadarnhaol – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn rhoi sylw i gysylltiadau ffyrdd megis yr A470 ym Meirionnydd a Phont Briwet, a bydd hyn yn un ffactor allweddol i gryfhau perthynas yr ardal gyda marchnadoedd pell ac agos. Mae Cynllun Gofodol Cymru hefyd yn adnabod Meirionnydd fel ardal ar gyfer datblygiad yr economi werdd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi dwyn partneriaid ynghyd i ddatblygu a gweithredu cyfres o gynlluniau economaidd fydd yn manteisio ar y cyfleon yma ac ar gryfderau Meirionnydd er mwyn creu cyflogaeth.

Rydym yn croesawu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud. Fodd bynnag, fel y gwelir o'r ffeithiau moel gyflwynir yn y ddogfen hon - os ydi Meirionnydd am gyrraedd lefel ffyniant ardaloedd eraill, a chyfrannu'n llawn at adferiad economi Cymru, bydd angen parhau â'r ymdrech. Hyderwn, hyd yn oed mewn hinsawdd ariannol anodd y bydd ein partneriaid yn y Cynulliad, byd busnes, sefydliadau ymchwil a'r colegau yn cyd-ymdrechu efo ni i sicrhau'r gefnogaeth angenrheidiol.

Dewi E. Lewis
Cadeirydd
Pwyllgor Ardal Meirionnydd

Alun W. Evans
Uwch Arweinydd Portffolio
Economi, Adfywio a Sgiliau





# Rhagair

Mae Gwynedd yn sir ddaearyddol eang, ymylol o ran ei pherthynas efo'r prif farchnadoedd, a gwasgaredig o ran ei phoblogaeth, ac o'r herwydd mae nodweddion economi'r sir hefyd yn amrywio rhwng, ac o fewn, ardaloedd.

Pwrpas y Cynllun hwn ydi adnabod sefyllfa cyflogaeth ym Meirionnydd gan gynnwys nifer y gweithlu posib a'r swyddi ar gael, strwythur yr economi, a sefyllfa ffyniant yr ardal – yn ogystal â nodi rhaglen waith bosib ar gyfer ymateb.

Er bod ystadegau yn cael eu casglu'n gyson ar raddfa genedlaethol ac is-ranbarthol ar gyflwr economi a natur cyflogaeth siroedd Cymru, neu ar raddfa rhanbarth megis Gogledd Cymru, dydi'r gwaith arferol o ddilyn a thracio'r dangosyddion perthnasol ddim yn cymryd i ystyriaeth y ffactorau ar raddfa'r ddaearyddiaeth fwy lleol na'r amrywiaethau o fewn sir megis Gwynedd.

Mae'r cynllun hwn felly yn torri tir newydd wrth geisio creu darlun o Feirionnydd ar bwynt mewn amser, a'r darlun hwnnw wedi ei ddatblygu o'r ystadegau ardaloedd lleol, sef Ardal Dolgellau, Ardal Ffestiniog-Trawsfynydd, Ardudwy, Penllyn, a Bro Dysynni.

Fe welir o'r darlun ystadegol fod sefyllfa bresennol Meirionnydd yn un heriol, gyda sawl her arall ar y gorwel hefyd. Yn gryno:

- Dyma'r ardal isaf ei hincwm yng Ngwynedd;
- Mae'r wardiau isaf eu hincwm yn cynnwys y rhai mwyaf gwledig yn ogystal â'r rhai ôl-ddiwydiannol;
- Dydi incwm canolrif unrhyw ward ym Meirionnydd ddim yn ddigon i gwrdd â phrisiau tai lleol;
- Mae'r ganran o hawlwyr y Lwfans Ceiswyr Gwaith am fwy na 12 mis yr uchaf yn y sir;
- Mae llai o swyddi ar gael nag yng ngweddill y sir;
- Dydi'r swyddi sydd ar gael ddim yn cydfynd efo'r mathau o swyddi a geisir gan y ceiswyr gwaith;
- Mae 32% o'r gyflogaeth yn y sector gyhoeddus, gyda 32% arall o'r gyflogaeth yn y sectorau llety ac arlwyo, a chyfan a mânwerthu;
- Mae diwydiannau traddodiadol yn edwino, a bydd diwedd y Cynllun Tir Gofal, sefyllfa'r Polisi Amaeth Cyffredin (CAP), gorffen gwaith yn derfynol ar safle Atomfa Trawsfynydd, a sefyllfa'r diwydiant chwareli i gyd yn ychwanegu at yr heriau yn y dyfodol agos.

Mae'r darlun yn awgrymu'r angen am ymyrraeth os am sicrhau ffyniant i Feirionnydd

Er hyn mae Meirionnydd efo adnoddau ardderchog o ran ei chynnyrch, ei thirlun a'i hamgylchedd, ei diwylliant a'i threftadaeth, a gwytnwch a mentergarwch ei phobl. Mae hefyd mewn lleoliad delfrydol i fanteisio ar ymchwil ac arloesedd dwy brifysgol a sefydliadau ymchwil eraill megis CAT.

Felly, tra bo'r darlun ystadegol yn un eithaf digalon o economi yn edwino, gwelir ar yr un pryd mai ardal heb gyrraedd ei photensial sydd yma, ac felly gyda'r ymyraethau cywir y gellid adfer y fantol o blaid economi amrywiol gref mewn modd fyddai'n batrwm i ardaloedd gwledig eraill.

# Nod

Cau'r bwlch cyfle gan fanteisio'n briodol ar gryfderau ac adnoddau Meirionnydd er mwyn sicrhau economi flaengar, bywiog a chynnaladwy gydag amrywiaeth o gyfleon gwaith o ansawdd uchel

Amcanion

- Amrywio a chynyddu'r nifer o swyddi ar gael ym Meirionnydd, ac mewn gwahanol leoliadau ar draws yr Ardal
  (Amcan 1)
- Sicrhau fod economi bresennol Meirionnydd yn gweithio i'w llawn botensial trwy uchafu gallu cynnyrch a busnesau'r Ardal i gystadlu yn fasnachol yn y farchnad
  (Amcan 2)
- Manteisio ar arloesedd sefydliadau ymchwil lle bynnag y bônt er mwyn sefydlu sectorau'r dyfodol priodol i amgylchiadau Meirionnydd, gyda'r pwyslais ar gyfleon gwaith o ansawdd uchel
  (Amcan 3)
- Datblygu safleoedd o wahanol fathau ar draws yr Ardal, ynghyd â'r is-adeiledd ar gyfer cyflogaeth, gan roi sylw i adennill tiroedd llwyd ac adeiladau segur i ddefnydd economaidd
  (Amcan 4)
- Gweithredu ar ddynodiad strategol Dolgellau o fewn Cynllun Gofodol Cymru, a datblygu ei rôl ymhellach fel prif ganolfan cyflogaeth a gwasanaeth Meirionnydd
  (Amcan 5)
- Uchafu gwerth rhaglenni economaidd a sgilio cenedlaethol a rhanbarthol, gan sicrhau gwyro ymyrraeth i Feirionnydd
  (Amcan 6)





# Daearyddiaeth y Cynllun



# ARDALOEDD LLEOL MEIRIONNYDD

| ARDAL | WARDIAU |
|---|---|
| **DOLGELLAU** | Dolgellau Gogledd<br>Dolgellau De<br>Brithdir/Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd<br>Corris/Mawddwy |
| **FFESTINIOG-TRAWSFYNYDD** | Bowydd a Rhiw<br>Diffwys a Maenofferen<br>Teigl<br>Trawsfynydd<br>Penrhyndeudraeth |
| **ARDUDWY** | Abermaw<br>Dyffryn Ardudwy<br>Llanbedr<br>Harlech |
| **PENLLYN** | Y Bala<br>Llandderfel<br>Llanuwchllyn |
| **BRO DYSYNNI** | Aberdyfi<br>Bryncrug/Llanfihangel<br>Llangelynin<br>Tywyn |

# Y GWEITHLU POSIB

## Y Gweithlu Posib

### Er mwyn cael darlun o'r potensial o ran maint a natur y gweithlu posib ym Meirionnydd a'r ardaloedd mwy lleol, edrychwyd ar:

- Nifer poblogaeth oed gwaith;
- Nifer hawlwyr y Budd-dal Ceiswyr Gwaith (JSA), a'r newid dros gyfnod er mwyn adnabod os oes cynnydd neu ostyngiad wedi bod;
- Nifer a chanran yr hawlwyr JSA o dan 25 oed;
- Nifer a chanran yr hawlwyr JSA sydd wedi bod heb waith dros 12 mis;
- Y mathau o swyddi mae'r ceiswyr gwaith yn chwilio amdanyn nhw.

## Y Prif Negeseuon Ydi:

- Mae'r her fwyaf o ran sicrhau poblogaeth ddigonol i gynnal cyflogaeth o unrhyw raddfa i'w gweld ym Mhenllyn a rhannau mwyaf gwledig Ardal Dolgellau,
- Mae'r nifer sy'n hawlio'r JSA ym Meirionnydd wedi cynyddu bron 36% yn y 18 mis at Ragfyr 2009.
- Er yn ystadegol llai na Chymru, mae canrannau y rhai allan o waith mewn rhai mannau ar draws y sir yn cymharu ar yr un lefel â Chymru neu uwch.
- Mae'n cymryd mwy o amser i rai allan o waith ym Meirionnydd gael swyddi nag yn ngweddill Gwynedd (o ran y sir gyfan ac o ran ei hardaloedd) na Chymru, ac yn enwedig felly yn ardaloedd mwyaf gwledig Meirionnydd.
- Y mannau sy'n amlygu'r angen am y sylw pennaf o ran cyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n chwilio am waith ydi: Ardaloedd Ffestiniog-Trawsfynydd ac Ardudwy, ac hefyd am wahanol resymau Ardal Dolgellau a wardiau y Bala, Tywyn, a Llangelynin.
- Yr her ydi sicrhau gwaith ar raddfa sy'n cyfateb i faint y gweithlu posib, gan hefyd roi ystyriaeth i'r cwestiwn a ddylai graddfa maint cyflogaeth amrywio o un ardal leol i'r llall er mwyn adlwey-rchu natur ac anghenion lleol y gwahanol ardaloedd – neu a ddylid rhoi'r wyau i gyd mewn un fasged a chanolbwyntio ar un man gwaith mawr fyddai'n llyncu'r holl weithlu posib?

## Gwybodaeth Gefndir

### Y Prif Ganfyddiadau Ydi:

- **Poblogaeth Oed Gwaith**
  - Mae poblogaeth oed gwaith Meirionnydd oddeutu 18, 800, gyda'r ardaloedd mwy lleol yn amrywio fel a ganlyn: Ardal Dolgellau (3,160); Ardal Ffestiniog-Trawsfynydd, o gynnwys Penrhyndeudraeth (5,100); Ardudwy (4065); Penllyn (2,600); Bro Dysynni (3,870).
- **Sefyllfa Budd-dal Ceiswyr Gwaith – JSA (Pob Oed)**
  - Roedd 635 o bobl yn hawlio'r JSA ym Meirionnydd yn Rhagfyr 2009, sef cynnydd o 228 ers Ebrill 2008.
  - Mae 3.4% o bobl oed gwaith yn hawlio'r JSA felly ym Meirionnydd o'i gymharu â 3.5% yng Ngwynedd; 4.3% yng Nghymru a 4.1% yn y DG.
  - Wrth edrych ar yr ardaloedd mwy lleol o fewn Meirionnydd, gwelir fod y gyfran uchaf o hawlwyr JSA yn **ardaloedd Ffestiniog-Trawsfynydd** ac **Ardudwy**, ond bod pocedi penodol hefyd o ran y canran JSA, sydd yn sylweddol uwch na'r ffigyrau ar gyfer Gwynedd, Cymru na'r DG : **Bowydd a Rhiw** (6.4%), **Diffwys a Maneofferen** (6.4%), **Abermaw** (5.4%), **Teigl** (4.7%), **Y Bala** (4.6%), **Tywyn** (4%), **Trawsfynydd** (3.8%).
  - Wrth drosi hyn i niferoedd, mae'r niferoedd uchaf o hawlwyr JSA yn **Abermaw** (82), **Bowydd a Rhiw** (67) a **Thywyn** (65). Mae niferoedd arwyddocaol hefyd yn **Nheigl**, **Llangelynin**, **De Dolgellau** a **Thrawsfynydd.**
  - Tra bo'r ganran pobl oed gwaith sy'n hawlio JSA ym Meirionnydd ychydig yn is nag yng Ngwynedd, Cymru na'r DG, **mae ffigwr arwyddocaol yn uwch allan o waith am dros 12 mis ym Meirionnydd o'i gymharu efo'r gweddill – sef 16.7% o hawlwyr JSA Meirionnydd yn hawlwyr am fwy na 12 mis** (14.4% Gwynedd; 13.7% Cymru; 13.8% DG).
  - Mae hyn yn cynrychioli 106 person sydd wedi bod allan o waith am fwy na 12 mis yn hawlio'r JSA ym Meirionnydd.
  - **Ardal leol Dolgellau** sydd â'r ffigwr uchaf o hawlwyr dros 12 mis, sef 16 person. Sylwer fod hyn yn cynrychioli 20.5% o'r hawlwyr JSA o fewn yr ardal leol, o'i gymharu â 16.7% ar gyfer Meirionnydd, 14.4% ar gyfer Gwynedd, 13.7% Cymru, a 13.8% y DG.
  - Fodd bynnag, mae'r cyfansymiau ar gyfer yr hawlwyr dros 12 mis yn cynnig pwll ystadegol llai, a thra bo canrannau uchel eraill ar gyfer sawl ward gan gynnwys wardiau gwledig, o ystyried canran a nifer efo'i gilydd, gwelir fod **Teigl**, **Abermaw** a'r **Bala** hefyd yn dod i'r amlwg
- **Sefyllfa Budd-dal Ceiswyr Gwaith – JSA (Dan 25 oed)**
  - Mae 206 o hawlwyr JSA dan 25 oed ym Meirionnydd.
  - Mae ffigwr canran Meirionnydd ar gyfer yr hawlwyr JSA dan 25 oed yn gyffredinol ychydig yn is na'r un hawlwyr ar gyfer Cymru gyfan.
  - Wedi dweud hynny, mae pocedi i'w gweld o ran lleoliadau'r hawlwyr yma. Tra bo canran hawlwyr ifanc o dan 25 oed Cymru ar 34%, yn **Ardal leol Dolgellau** mae'r ffigwr yn 43.6%, gyda ward **De Dolgellau** ar 48.1% a **Brithdir/Llanfachreth** ar 62.5%! Mae pocedi eraill megis ward **Llangelynin** ar 45.5% a'r **Bala** ar 34%.
  - Er bod y niferoedd yma yn eithaf bach e.e. 34 person yn Ardal mwy lleol Dolgellau, mae'r ffigwr yna ar yr un raddfa â wardiau unigol sy'n cymharu o ran poblogaeth e.e. Bowydd a Rhiw, Teigl, Penrhyndeudraeth, Abermaw a Thywyn.
  - Mae ychydig mwy o'r bobl ifanc dan 25 oed sy'n hawlio'r JSA ym Meirionnydd hefyd yn gwneud hynny am fwy na 12 mis o gymharu efo Gwynedd a'r DG.
  - Ond mae'r niferoedd absoliwt yn isel dros ben – 10 person yn Rhagfyr 2009. Eto gwelir hyn uchaf yn wardiau mwy gwledig **Ardal leol Dolgellau**, lle lleolir hanner y ffigwr hwn.
- **Swyddi y Ceisir**
  - Mae galw am 55 swydd reolaethol a phrofesiynol; 55 swydd weinyddol a gwasnaethau personol; 105 swydd gwerthu a gofal cwsmer; 100 swydd crefftau sgilgar; 55 swydd gweithredwyr peiriannau a 195 o swyddi elfennol.
- **Yr Economaidd Anweithredol**
  - Sylwer na fu ystyriaeth i'r agwedd yma. Y Cyfrifiad ydi sail gwybodaeth am yr economaidd anweithredol, a thra i waith pellach gael ei wneud yn 2007 – gyda ninnau bellach yn 2010 bron 10 mlynedd wedi'r Cyfrifiad diwethaf, does dim gwybodaeth digon cyfoes na dibynadwy i'w gael ar lefel Meirionnydd, nag ardaloedd mwy lleol ar gyfer mesur yr economaidd weithredol ac anweithredol yn gywir.
  - Serch hynny mae 2,355 o hawlwyr budd-daliadau allan o waith ym Meirionnydd, ond maent yn cynnwys y rhai hynny na all weithio.
  - Byddai'r economaidd anweithredol felly, o'u hadnabod, yn cynnig pwll ychwanegol o weithwyr posib uwchben y ffigyrau JSA nodir yma. Cyfrifiad 2011 fydd yn rhoi'r sail ar gyfer ffigyrau cadarn.

# SWYDDI A STRWYTHUR CYFLOGAETH

## Swyddi a Strwythur Cyflogaeth

### Er mwyn cael darlun o strwythur cyflogaeth a sefyllfa swyddi ym Meirionnydd a'r ardaloedd mwy lleol edrychwyd ar:

- Faint o swyddi ar gael yn y Canolfannau Gwaith;
- Y mathau o swyddi ar gael yn y Canolfannau Gwaith;
- Y swyddi oedd ar gael ym Meirionnydd yn Ionawr 2010;
- Dosbarthiad y gweithlu ar draws sectorau;
- Amcan o nifer mannau gwaith ym Meirionnydd a'u maint yn nhermau cyflogaeth;
- Y patrwm bras o ran dosbarthiad mannau gwaith a gweithwyr ar draws Meirionnydd.

## Y Prif Negesuon Ydi:

- Mae llai o swyddi ym Meirionnydd nag yn ardaloedd eraill Gwynedd;
- Bu gostyngiad sylweddol yn y nifer swyddi ar gael yn y 7 mis diwethaf;
- Mewn rhai wardiau gan gynnwys rhai poblog, doedd dim swyddi gwag ar gael yn y Canolfannau Gwaith o gwbl yn y 7 mis diwethaf;
- Dydi'r swyddi sydd ar gael ddim yn cyfateb i'r nifer sy'n ceisio am waith – na chwaith yn cyfateb i'r mathau o swyddi mae'r rhan fwyaf o'r ceiswyr gwaith eu heisiau.
- Mae canran mymryn yn uwch o swyddi Meirionnydd yn rhai llawn amser, ac mae hynny ynghyd â ffigyrau incwm aelwydydd, yn awgrymu fod cyflogau isel yn nodwedd o economi Meirionnydd;
- Ar yr un pryd mae'r gostyngiad yn y swyddi gwag rhwng Mehefin a Rhagfyr 2009 yn awgrymu natur dymhorol rhannau o economi Meirionnydd.
- Mae sail gyfyng i'r economi, gyda 32.3% o gyflogai Meirionnydd yn y sector gyhoeddus, a 32.2% pellach wedi eu rhannu rhwng y sector dwristaidd (llety ac arlwyo) a'r sector werthu (cyfan a mânwerthu).
- Dolgellau ydi prif dref cyflogaeth Meirionnydd, efo Abermaw, Bala, Blaenau/Ffestiniog a Thywyn hefyd yn cynnig cyflogaeth sylweddol;
- Ar yr un pryd mae nifer o wardiau mwy gwledig megis Aberdyfi, Dyffryn Ardudwy, Brithdir/Llanfachreth etc, Llanuwchllyn a Llangelynin hefyd efo cyflogaeth eithaf arwyddocaol - a hynny er nad ydi daliadau amaeth wedi eu cynnwys yn y ffigyrau cyflogaeth a swyddi;
- O'r amcan-ffigyrau bras iawn sydd ar gael mae'r gyflogaeth yn Nhrawsfynydd bellach ar yr un raddfa â Chorris/Mawddwy, sef oddeutu 112,
- Mae hyn yn atgyfnerthu'r darlun o economi sy'n edwino.

## Gwybodaeth Gefndir

### Y Prif Ganfyddiadau Ydi:

- Mae llai o swyddi gwag ym Meirionnydd nag yn ardaloedd eraill Gwynedd – ac mae hyn i'w gweld yn duedd gyson.
- 110 o swyddi oedd ar gael ym Meirionnydd yn y Canolfannau Gwaith yn Ionawr 2010 – roedd 60 o'r rhain yn y sector mânwerthu yn Nolgellau, allai awgrymu datblygiad penodol yn y sector;
- Fodd bynnag, mae tuedd annisgwyl o ran y swyddi ar gael yn Nolgellau dros gyfnod o fisoedd, sef bod swm o swyddi o tua'r un nifer yn dod ar gael efo'i gilydd bron bob yn ail fis – gallasai fod yn gyd-ddigwyddiad, ond mae'n duedd sydd yn haeddu ymchwil pellach rhag ofn fod cyflogi ar gytundebau byr yn dod yn nodwedd o'r economi leol honno, ac nad swyddi ychwanegol sydd ar gael mewn gwirionedd.
- Roedd 23.1% yn llai o swyddi gwag ym Meirionnydd yn Ionawr 2010 o'i gymharu â Mehefin 2009, ond ar yr un pryd mae'r nifer swyddi ar gael yn Ionawr 2010 wedi dyblu o'r ffigwr ar gyfer Rhagfyr 2009;



- Mae'r gostyngiad swyddi ym Meirionnydd yn y cyfnod yma i'w weld yn llai na'r hyn brofwyd ar raddfa Gwynedd gyfan (-26.8%), ond cryn dipyn yn fwy o ostyngiad nag a welwyd ar raddfa Cymru (-16.3%).
- Fodd bynnag, heb y 60 swydd ar gael yn ardal Dolgellau, cyfanswm o 50 swydd wag fyddai ar gyfer Meironnydd yn y Canolfannau Gwaith yn Ionawr 2010, sef gostyngiad o 65% mewn swyddi gwag ers Mehefin 2009.
- Mae'r gostyngiad o 91 swydd gafwyd rhwng Mehefin 2009 a Rhagfyr 2009 (sef gostyngiad o 36.4%) hefyd yn awgrymu fod natur dymhorol i'r economi – gwelir yr un duedd dros y cyfnod yn Nwyfor, ond yn Arfon gwelir cynnydd o 34 swydd ar gael;
- Mae dosbarthiad lleoliad y swyddi gwag hefyd yn awgrymu llif tymhorol – e.e roedd gostyngiad o 15 swydd wag yn Harlech a gostyngiad o 13 yn Llandderfel;
- Ar yr un pryd mae ffigyrau sawl un o wardiau'r ardaloedd lleol yn dangos nad oedd unrhyw swyddi gwag o gwbl yn Ionawr 2010, a'r rhain yn cynnwys Diffwys a Maenofferen, Teigl, Aberdyfi a Llangelynin;
- Yn Nyffryn Ardudwy, na Teigl chwaith, doedd dim swyddi gwag yn cael eu hysbysebu yn y Canolfannau Gwaith ym Mehefin 2009, Rhagfyr 2009 na Ionawr 2010.
- O ran y mathau o swyddi ar gael:
  - Roedd 9 swydd rheoli a phroffesiynol yn cael eu hysbysebu o'i gymharu â'r galw gan yr Hawlwyr Budd-dal Ceiswyr Gwaith am 55 swydd o'r fath;
  - Tra bo 30 o'r ceiswyr gwaith yn chwilio am swyddi gweinyddol ac ysgrifenyddol, dim ond 10 swydd swyddfa oedd ar gael;
  - Roedd 7 swydd ar gael yn y crefftau sgilgar, a gwaith elfennol megis labro, glanhau ag ati, i gyfateb i'r galw am 100 a 195 swdd gan y ceiswyr gwaith yn y ddau gategori yma!
- Mae canran fymryn yn uwch o weithwyr Meirionnydd mewn swyddi llawn amser nag yng Ngwynedd, ond mae'r canran swyddi llawn amser ym Meirionnydd yn is na'r ganran ar gyfer Cymru na'r DG;
- Tra nad oes ffigyrau dibynadwy ar gael ar gyfer y sector amaeth gan fod y ffigyrau yn canolbwyntio ar gyflogaeth o fewn sectorau yn hytrach na chynnwys yr hunan-gyflogedig – yn amlwg mae amaeth yn weithgaredd economaidd llawer mwy sylweddol ac arwyddocaol i Feirionnydd na'r 1% gyflogir yn y sector amaeth, coedwigaeth a physgota;
- Y sector gyhoeddus, felly, ydi prif sector gyflogaeth Meirionnydd ar 32.3% er bod y ganran yma ychydig yn is nag ar gyfer Gwynedd gyfan;
- Mae'r sector llety ac arlwyo ar 16.2%, a chyfan a mânwerthu hefyd ar 16%, tra bo'r sector weithgynhyrchu ar 11.2%;
- Gwelir felly, sail gyfyng yr economi ym Meirionnydd.
- O'r amcan-ffigyrau ar gael mae 87.8% o fannau gwaith Meirionnydd o'r maint sy'n cyflogi i fyny at 10 gweithiwr, ac mae oddeutu 10.7% yn y categori o gyflogi 11- 50 o weithwyr – tua 1.5% sy'n y categori o gyflogi 50-200 o weithwyr.
- Dydi'r mannau gwaith sy'n cyflogi dros 200 dim yn ymddangos yn yr ystadegau ym Meirionnydd na Gwynedd, os oes rhai ar gael o gwbl tu allan i'r sector gyhoeddus. Yn wir mae mannau gwaith o'r maint yma yn gymharol brin yng Nghymru ac yn y DG.
- Lle mae Meirionnydd i'w gweld yn gymharol brin ydi yn nifer y mannau gwaith sy'n cyflogi rhwng 11 a 50;
- O safbwynt nifer y gweithwyr sy'n cael eu cyflogi mewn mannau gwaith o'r maint yma, mae 3,331 gweithiwr, sy'n cyfateb yn eithaf agos i'r 3,665 gyflogir yn y mannau gwaith o faint 0-10 gweithiwr.
- Ar yr un pryd awgryma'r ystadegau fod tua 2,470 o weithwyr ym Meirionnydd yn gweithio mewn mannau gwaith sy'n cyflogi dros 50, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn gyflogedig mewn mannau gwaith o faint rhwng 50 a 200 gweithiwr.
- O ran dosbarthiad y swyddi mae'r gyflogaeth fwyaf o ddigon, o ran y nifer s'yn cael eu cyflogi, i'w gweld yn nhref Dolgellau, gydag Abermaw, y Bala, Blaenau/Ffestiniog a Thywyn yn cynnig cyflogaeth sylweddol ond ar raddfa cryn dipyn yn llai.
- Fodd bynnag, mae'r wardiau mwy gwledig megis Aberdyfi, Dyffryn Ardudwy, Brithdir a Llanfachreth, Llanuwchllyn, a Llangelynin hefyd efo cyflogaeth eithaf arwyddocaol. Ymhellach mae'r gyflogaeth yng Nghorris/Mawddwy i'w gweld ar yr un raddfa â Thrawsfynydd, oedd ar un cyfnod, wrth gwrs, yn un o brif safleodd cyflogaeth Meirionnydd.
- Mae'r darlun cyffredinol welir trwy'r ystadegau yma yn un o:
  - brinder swyddi;
  - gyd-destun o ostyngiad sylweddol yn y nifer swyddi ar gael;
  - swyddi yn dod yn wag yn achlysurol a'r rheiny wedi eu taenu yn denau ar draws yr ardal ar wahân i ambell ffactor annisgwyl;
  - natur dymhorol y gyflogaeth;
  - y swyddi ar gael ddim yn cyfateb i'r nifer na'r mathau o swyddi sydd eu hangen gan y ceiswyr gwaith - Mismatch;
  - sail gyfyng economi Meirionnydd.
- Ar yr un pryd, mae'n rhaid cofio nad oes ffiniau o gwmpas Meirionnydd – mae'r trigolion yn teithio i fannau eraill i weithio, ac mae gweithwyr hefyd yn teithio i mewn bob dydd i weithio yn yr ardal.

Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

# SEFYLLFA FFYNIANT YR ARDAL

## Sefyllfa Ffyniant Yr Ardal

### Er mwyn cael darlun o sefyllfa ffyniant Meirionnydd a'r ardaloedd mwy lleol edrychwyd ar:

- Y sefyllfa yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn 2008 – dyma'r darlun traddodiadol, arferol;

### Gan dwrio wedyn i geisio darlun mwy lleol o ran:

- Dibyniaeth ar fudd-daliadau Allan o Waith;
- Incwm aelwydydd;
- Incwm gyferbyn â phrisiau tai, ac felly mesur y gallu i brynu t□.

### Y Prif Negesuon Ydi:

- Dydi llawer o Feirionnydd ddim yn cyrraedd y rhestrau amddifadedd swyddogol o ran incwm neu gyflogaeth, yn bennaf oherwydd dibyniaeth y cyfrif ar ardaloedd daearyddol i gydfynd efo nifer poblogaeth o tua 1,500.
- Mae edrych ar setiau eraill o wybodaeth mwy lleol, wedi eu seilio ar wardiau yn cynnig darlun tra gwahanol o angen ardaloedd Meirionnydd.
- Mae canran hawlwyr Budd-daliadau Allan o Waith yn agos at y ffigwr ar gyfer Gwynedd, gyda 2,355 o drigolion oed gwaith Meirionnydd ar Fudd-daliadau Allan o Waith - mae hynny yn golygu fod effaith anorfod ar lefelau incwm a ffyniant yr ardal.
- Y mannau effeithir fwyaf ydi Tywyn, Bowydd a Rhiw, Abemaw, Dolgellau, Teigl, Y Bala, Llangelynin a Diffwys a Maenofferen.
- **Meirionnydd ydi'r ardal isaf ei hincwm aelwydydd yng Ngwynedd.**
- Mae dros 10% o aelwydydd Meirionnydd ar lai na £10k y flwyddyn.
- Mae bron i chwarter aelwydydd Meirionnydd gydag incwm llai na £15,000 y flwyddyn, a dros eu hanner efo incwm llai na £25k y flwyddyn.
- O fewn 11 allan o'r 20 ward sydd ym Meirionnydd mae'r canran ar yr un raddfa ag ardaloedd difreintiedig cydnabyddedig e.e yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol Arfon – ac mae'r 11 ward yma yn cynnwys rhai o'r wardiau mwyaf gwledig.
- Dydi incwm canolrif unrhyw ward ym Meirionnydd ddim yn ddigon i gwrdd â phrisiau tai o fewn y wardiau hynny. Mae hyn yn arwydd o sefyllfa o dlodi graddfa ddaearyddol eang, ac nid yn unig mewn pocedi neu leoliadau cyfyngedig.
- Mae peryg i sefyllfaoedd o'r fath fod yn anweledig, ac felly peryg i anghenion real iawn gael eu methu.
- Mae gallu cyffredinol ardaloedd o'r fath i gynhyrchu ffyniant trwy fentro a buddsoddi'n lleol ar raddfa economaidd sylweddol yn mynd i fod yn gyfyngedig oherwydd diffyg cyfalaf, ac o bosib diffyg cyfalaf wedi ei etifeddu.
- Mae'r darlun yn awgrymu'r angen am ymyrraeth os am sicrhau ffyniant i Feirionnydd.



## Gwybodaeth Gefndir

### Y Prif Ganfyddiadau Ydi:

- **Gwybodaeth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 (MALIC)**
  - O edrych ar ystadegau MALIC o ran nifer ardaloedd Meirionnydd o fewn y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru, yna dydi Meirionnydd ddim yn cyrraedd ffigyrau Arfon dyweder;
  - Serch hynny, mae 45 ardal cyfrif MALIC Meirionnydd o fewn y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru am wahanol resymau, gyda mynediad i wasanaethau a thai yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r dynodiadu hynny.
- **Budd-daliadau Allan o Waith**
  - Mae Budd-daliadau Allan o Waith yn fesur cydnabyddedig o ddiffyg ffyniant.
  - Tra bo 12.5% o rai oed gwaith yn hawlio'r Budd-daliadau Allan o Waith, mae hynny fymryn yn is na chanran Gwynedd (12.7%), ond mae hynny yn golygu fod 2,355 o drigolion oed gwaith Meirionnydd ar Fudd-daliadau Allan o Waith, ac mae hynny yn golygu fod effaith anorfod ar lefelau incwm.
  - O edrych ar wardiau unigol gwelir Tywyn (230), Bowydd a Rhiw (215) ac Abermaw (215) gyda'r niferoedd uchaf o hawlwyr.
  - Gwelir hefyd fod canarannau a niferoedd arwyddocaol yn nwy ward Dolgellau (220 efo'i gilydd), hefyd yn Teigl (180), a'r Bala (155) a Llangelynin (155) yn ogystal â Diffwys a Maenofferen (125).
- **Incwm Aelwydydd**
  - Meirionnydd ydi'r ardal isaf ei hincwm aelwydydd o 3 ardal Gwynedd, gyda 10.1% efo incwm llai na £10k y flwyddyn; 22.9% ar lai na £15k; 37.7% ar lai na £20k a 51.8% ar lai na £25k y flwyddyn.
  - Mae'r sefyllfa ar ei gwaethaf (yn eu trefn) yn wardiau Bowydd a Rhiw, Tywyn, De Dolgellau, Diffwys a Maenofferen, Abermaw, Trawsfynydd, Dyffryn Ardudwy, Bryncrug/Llanfihangel, Corris/Mawddwy, Y Bala, Llangelynin.
- **Y Gallu i Brynu T□**
  - Wrth fesur ffyniant ardal, mae'r gallu i ddefnyddio incwm i gael hanfodion bywyd yn ffactor – gyda'r gallu i brynu t□ yn un ffactor allweddol.
  - O edrych ar ganolrif incwm wardiau Meirionnydd ochr yn ochr â chyfartaledd prisiau tai o fewn yr un ardal, gwelir fod faint o incwm sydd ei angen ar gyfer prynu t□ mewn gwahanol ardaloedd yn amrywio, o 3.3 gwaith yr incwm yn Teigl i 10.3 gwaith yr incwm yn ward Brithdir/Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd!
  - Mae 11 ward ym Meirionnydd yn lle mae'r gymhareb incwm yn uwch na'r gymhareb ar gyfer Gwynedd, sydd ar 6.3 gwaith yr incwm.
  - Fodd bynnag, yn ystadegol mae'r ffigyrau yma yn awgrymu nad oes unman ym Meirionnydd lle mae'r incwm canolrif yn ddigonol i brynu t□ lleol. Ond wrth gwrs, ar yr un pryd, mae unigolion o fewn ardaloedd Meirionnydd yn parhau i fedru prynu tai yn lleol. Dangos gallu neu anallu cyffredinol ardal, a nifer o'i thrigolion, mae'r ffigyrau nid cynnig sefyllfa absoliwt!

# Y Rhaglen Waith

- Mae nifer o gynlluniau strategol economaidd ac adfywio eisoes ar waith gan y Cyngor a phart-neriaid ym Meirionnydd, ac fe fydd y rhain yn parhau i gael eu gweithredu – maent wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Waith;
- Ar yr un pryd, mae angen gweithredu yn rhag-weithiol gyda chynlluniau pwrpasol i ymateb i'r heriau sydd wedi eu hadnabod ac i gyfleon newydd;
- Mae'r sefyllfa gyllidol dros y cyfnod nesaf yn mynd i fod yn un heriol, ond mae cyfleon hefyd, gan gynnwys gwyro cynlluniau ac uchafu gwariant rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol i amgylchiadau Meirionnydd;
- Yn y tudalennau sy'n dilyn gwelir dabl yn crynhoi cynlluniau, a syniadau posib ar gyfer cynlluniau pellach – sylwer felly eu bod ar wahanol bwyn-tiau o ran eu datblygiad a'u haeddfedrwydd;
- Yn anorfod ni fydd yn bosib gwneud popeth ar unwaith, a bydd gofyn blaenoriaethu a gweithredu'n bragmataidd yn y cyfnod cyllidol dyrys sy'n ein wynebu;
- Felly bydd y rhaglen waith yn gorfod datblygu dros amser i ymateb i heriau a chyfleon newydd ond hefyd i fanteisio ar gyfleon cyllido fel bônt yn codi dros y blynyddoedd nesaf.



Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

# Y Rhaglen Waith : Cynlluniau Posib

| Amcan | | Cynllun | Gweithredu |
|---|---|---|---|
| **Amcan 1** | Amrywio a chynyddu'r nifer o swyddi ar gael | **Tyfu Sectorau : Awyr Agored**<br>• Gweithredu'r cynllun *Canolfan Rhagoriaeth* fydd yn sefydlu'r sector Awyr Agored fel sector economaidd gref ym Meirionnydd gan gynyddu ac amrywio'r dewis o swyddi ar gael yn lleol – gyda Gwedd 1 yn datblygu'r elfennau ffisegol<br>• Darblygu ac ehangu gweithgareddau'r sector ymhellach gan ystyried e.e. pysgota afon, marchogaeth etc o dan Gwedd 2, gan greu cysylltiadau gyda mentrau eraill e.e. Llwybr yr Arfordir, a datblygu sgiliau o fewn yr Ardal ar gyfer y sector gyfan | 2010 ymlaen<br><br>I'w gadarnhau |
| | | **Tyfu Sectorau : Treftadaeth Hanesyddol**<br>Manteisio ar gyfleon cyllid Prosiect Twrisitiaeth Treftadaeth (CADW a'r Cynulliad) i ddatblygu mentrau fyddai gyda'r gallu i dyfu'r sector dreftadaeth ym Meirionnydd, gan sgilio yn bwrpasol ar gyfer y sector, cyfrannu at amrywiaeth y swyddi ar gael, a chynnig cyflogaeth ansawdd uchel gan ystyried e.e.:<br>• Cyflwyno cais am ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd er mwyn adeiladu ar dreftadaeth ddiwydiannol yr Ardaloedd Llechi, gan gynnwys Blaenau Ffestiniog a Chorris, trwy ddehongli is-adeiledd strwythurol y diwydiant gan glymu'r chwareli, eu trefi/pentrefi, eu rheilffyrdd a'u harbyrau i greu atyniadau ar raddfa tirlun cyfan<br>• Ystyried oes cyfleon eraill i Feirionnydd e.e. o dan themau y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, sef : Gwreiddiau, Cynhanes a'r Rhufeiniaid; Tirluniau ysbrydol ac ysbrydolgar; Cymru y genedl ddiwydiannol gyntaf; a Cymru'r Môr, gan edrych hefyd tu hwnt i'r Prosiect penodol yma er mwyn datblygu'r sector treftadaeth fel sector dwristiaeth gwerth uchel. | I'w datblygu<br><br>I'w ystyried<br><br>I'w ystyried |
| | | **Swyddi'r Sector Gyhoeddus**<br>Cyd-drafod gyda phartneriaid yn y sector gyhoeddus er mwyn adnabod a gweithredu ar gyfleon i leoli swyddi proffesiynol yn Nolgellau, gan gynnwys swyddi gan y Cyngor | I'w ddatblygu |
| | | **Mentergarwch : *Llwyddo yng Ngwynedd - Mentro***<br>Gweithredu'r cynllun yn lleol ym Meirionnydd er mwyn annog ac arfogi unigolion a chymunedau i fod yn fentrus, gan arwain at gynnydd mewn cyflogaeth a hunan gyflogaeth o fewn yr Ardal | 2010 ymlaen |
| | | **Mentergarwch : *Llwyddo yng Ngwynedd – Galluogi***<br>Gweithredu'r cynllun grant yn lleol ym Meirionnydd er mwyn hyrwyddo meddylfryd mentergarwch o fewn unigolion, a busnesau presennol a thraddodiadol gan arwain at weithgareddau busnes newydd, twf yn y busnes a swyddi ychwanegol | 2010 ymlaen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 2** | Uchafu gallu cynnyrch a busnesau'r Ardal i gystadlu yn y farchnad | **Platfform Cystadleuol – Isadeiledd Technoleg Gwybodaeth**<br>Gweithredu i uchafu ar-gaeledd a nerth technolegau TG megis *Band Llydan* a *Fibrespeed* o fewn Meirionnydd fel bo crynswth critigol o fusnesau bach a mawr yn masnachu trwy dechnoleg, a hyn yn galluogi'r Ardal i oresgyn ei lleoliad ar y cyrion gan gystadlu yn y farchnad fyd-eang | I'w gadarnhau |
| | | **Cysylltiadau Trafnidiaeth**<br>• Cryfhau cysylltiadau rhwng Meirionnydd a'r prif ganolfannau tŵf o fewn a thu allan i'r ardal, gan gynnwys y cysylltiadau efo Aberystwyth, er mwyn hwyluso cwrdd ag anghenion cyflogaeth<br>• Gwelliannau i Reilffordd Dyffryn Conwy er mwyn cynyddu'r capasiti i gludo teithwyr<br>• Adnabod a thargedu cyfleon i wella cysylltiadau trafnidiaeth o fewn a gyda Meirionnydd er mwyn hwyluso symudiad nwyddau a mynediad pobl at wasanaethau e.e. ar yr A470, A487 gyda phwyslais ychwanegol ar wella darpariaeth y Bont ar Ddyfi ym Machynlleth, yr A493/96 a Phont Briwet | I'w ddatblygu<br>I'w gadarnhau<br>Yn digwydd a pharhaus |
| | | **Marchnata**<br>Gweithredu cynlluniau strategol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn hyrwyddo a chanfod marchnadoedd i gynnyrch Meirionnydd e.e. cynnyrch amaeth (o dan Echel 1), a bwyd, crefft neu dwristiaeth (o dan Echel 3 a 4) | 2010 ymlaen |
| | | **Cynllun Adfywio Ffisegol Blaenau Ffestiniog**<br>Gweithredu'r pecyn fydd yn cryfhau'r cynnig siopa a'r is-adeiledd er mwyn<br>galluogi busnesau'r dref i fanteisio'n llawn ar y potensial twristiaeth | 2010 ymlaen |
| | | **Clystyrau Sector**<br>Gweithio'n rhagweithiol o fewn Meirionnydd i annog a chefnogi clystyrau busnes mewn sectorau penodol er mwyn meithrin sgiliau, gwella ansawdd gwasanaeth, cyd-farchnata, a chryfhau eu gallu i gyd-weithio a chyd-gystadlu am gytundebau e.e. yn y sectorau adeiladu, gofal, gwyddorau môr ac amgylcheddol, ynni, peirianneg, twristiaeth, atyniadau treftadaeth a diwylliant, a'r sector greadigol yn arbennig cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes | 2010 ymlaen ac i'w ddatblygu ymhellach |
| | | **Cyfleon Cyfalaf Mawr**<br>Targedu gwelliannau a chyfleon cyfalaf fyddai'n creu swyddi, ac fyddai'n briodol i amgylchiadau Meirionnydd, gan gyflwyno achos dros eu gweithredu neu eu lleoli yn yr ardal, gan greu'r cyfle i fusnesau lleol fanteisio ar gytundebau newydd e.e. Pont Briwet, Ffordd Osgoi Porthmadog, Gwesty ac adnoddau hamdden Clwb Golff Dewi Sant Harlech, a Charchar | 2010 ymlaen a pharhaus |



| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 3** | Sefydlu sectorau'r dyfodol priodol i amgylchiadau Meirionnydd, gyda'r pwyslais ar gyfleon gwaith o ansawdd uchel | **Arloesedd a Sectorau Gwyddonol**<br>Gweithio'n rhagweithiol gyda sefydliadau ymchwil gwyddonol i adnabod cyfleon 'awyr las' yn ogystal â thechnolegau blaengar, cynhyrchion a gwasanaethau newydd fyddai'n bosib eu cynhyrchu, ac fyddai'n briodol i amgylchiadau ac adnoddau craidd Meirionnydd, gan gynorthwyo eu masnacheiddio a thynnu'r budd i'r Ardal | I'w ddatblygu |
| | | **Gwyddorau môr**<br>Datblygu a hyrwyddo twf y sector fel un newydd a dyfeisgar, gan roi sylw penodol i'r anghenion sgilio a chysylltu pobl ifanc Meirionnydd efo'r cyfleon | I'w ddatblygu |
| | | **Y Sector Werdd**<br>Manteisio ar gyfeiriad polisi yr agenda Carbon Isel a chynllun cenedlaethol *Glastir* er mwyn:<br>• Datblygu gwasanaethau amgylcheddol amrywiol a masnacheiddio cynnyrch a deunyddiau gwyrdd (e.e. yn y maes adeiladu, a meicro-gynhyrchu trydan) er mwyn sefydlu'r sail a'r gallu cynhyrchu ym Meirionnydd<br>• Adnabod y cyfleon economaidd newydd i fusnesau fferm o'r maes dal carbon, gofynion ansawdd dŵr a gweithgareddau eraill Glastir<br>• Sgilio trigolion Meirionnydd, ac yn enwedig o fewn yr ardaloedd gwledig, ar gyfer y technolegau a'r gofynion er mwyn sicrhau fod ganddynt y cyfle gorau i fanteisio'n economaidd ar gyfleon newydd | I'w ddatblygu |
| | | **Y Sector Ynni**<br>• Adnabod y cyfleon a'r safleoedd ar draws Meirionnydd fyddai efo'r potensial i gynhyrchu trydan o ynni dŵr, ynni biomas, ynni treulio anaerobig, ynni'r llanw, ynni hydrogen, a thechnolegau amgen eraill – gan ddatblygu'r cyfleon gorau boed yn strategol neu gymunedol, a manteisio ar y cyfle sydd i gysylltu cynhyrchu graddfa fechan i'r grid cenedlaethol<br>• Manteisio yn ychwanegol ar gyfleon i ddatblygu cynlluniau ynni mwy strategol mewn lleoliadau fyddai'n gwneud defnydd o strwythurau<br>• trosglwyddo trydan sydd eisoes o fewn yr Ardal | I'w ddatblygu |
| | | **Bio-dwristiaeth**<br>Uchafu'r cyfleon o fewn Meirionnydd gan gynnwys elwa ar ddynodiad Biosphêr Dyfi, a chanolfan ragoriaeth CAT yn ogystal â safleoedd byd natur a chynllun Theatr y Gwyllt, gan ddatblygu arbenigeddau a sgiliau perthnasol o fewn busnesau'r Ardal a phecynnu'r cynnig twristiaeth lleol | I'w ddatblygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 4** | Datblygu safleoedd gwaith ar draws yr Ardal, gan roi sylw i adennill tiroedd llwyd ac adeiladau segur | **Safle Trawsfynydd**<br>Defnyddio potensial is-adeiledd trydan y safle, gan hefyd ystyried y potensial o'i ddatblygu e.e. ar gyfer deorfa technolegau a busnesau gwyddonol ac ynni | I'w gadarnhau |
| | | **Safle Maes Awyr Llanbedr**<br>Cefnogi parhad y safle fel maes awyr ac ar gyfer gwasanaethau perthnasol | I'w gadarnhau |
| | | **Safleoedd Cyflogaeth Strategol**<br>• Cefnogi datblygiad pellach safle Parc Busnes Penrhyndeudraeth<br>• Parhau i geisio canfod lleoliadau addas ar gyfer safleodd strategol i gwrdd â'r anghenion cyflogaeth sydd wedi eu hamlygu yn Abermaw, Blaenau Ffestiniog, Dolgellau a Thywyn | I'w gadarnhau |
| | | **Adeiladau Segur**<br>• Ystyried datblygu cynllun strategol ar batrwm Adwy fyddai'n creu gofod gwaith, storio a gweithdai bychan trwy adnabod ac adfer adeiladau segur priodol i ddefnydd economaidd (gan gynnwys adeiladau'r Cyngor), gyda phwyslais arbennig ar gyflenwi unedau gwaith yn Nolgellau, Tywyn a'r Bala<br>• Ystyried maint y Stryd Fawr yn rhai o drefi siopa Meirionnydd, gan ystyried unrhyw gyfleon i ddefnyddio unedau siopau gwag ar gyrion y canol i ddefnyddiau economaidd eraill, yn enwedig ym Mlaenau Ffestiniog | I'w ystyried |
| | | **Byw a Gweithio'n Lleol**<br>Manteisio ar syniadaeth y cynllun *Tai, Iaith a Gwaith* (Cymdeithas Tai Eryri) i ddatblygu un neu ddau o safleoedd bychan amlbwrpas ym Meirionnydd ar gyfer gwaith, swyddfeydd, tai ac o bosib hamddena er mwyn creu ffocws cyflogaeth fwy lleol a chadw teuluoedd ifanc yn yr ardal, ac yn benodol yn Nhywyn | I'w ddatblygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 5** | Datblygu rôl strategol Dolgellau ymhellach fel prif ganolfan cyflogaeth a gwasanaeth Meirionnydd | **Gwasanaethau Cyhoeddus**<br>Cynnal adolygiad o wasanaethau cyhoeddus ar draws yr asiantaethau, gan drafod posibiliadau cyd-leoli swyddfeydd a sefydlu ffocws gref yn Nolgellau fydd yn cefnogi'r trefi clwstwr a gwasanaethau mwy lleol ym Meirionnydd | I'w ddatblygu |
| | | **Canol y Dref**<br>Adolygu cynnig siopa a thwristiaeth y dref, gan weithio gyda masnachwyr ac atyniadau i amrywio ac ehangu'r dewis, uchafu ansawdd a chodi proffil Dolgellau fel tref farchnad fywiog, Gymreig a Chymraeg – gan gynnwys y cynnig gyda'r nos | I'w ddatblygu |
| | | **Mynediad at Gyflogaeth a Gwasanaethau**<br>Sicrhau fod trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y clwstwr trefi a phentrefi Meirionnydd a Dolgellau yn hwylus a rheolaidd, ac yn berthnasol i oriau teithio i ac o'r gwaith, ac i fwynhau adnoddau gyda'r nos | I'w ddatblygu |
| | | **Both Sgiliau Galwedigaethol Dolgellau**<br>Cefnogi datblygiad newydd arfaethedig Coleg Llandrillo-Meirion Dwyfor yn Nolgellau | I'w ddatblygu |
| | | **Menter yr Ifanc**<br>Sefydlu cynllun mentergarwch a gofod mentro ar gyfer pobl ifanc, gan roi sylw i'r elfennau sgilio menter a sgilio meysydd arbenigol trwy bartneriaeth efo Coleg Llandrillo – Meirion Dwyfor, a thrwy gynllun *Llwyddo'n Lleol,* a sefydlu unedau treialu busnes mewn gofod gwag yn y dref | I'w ddatblygu |



| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan 6** | Uchafu gwerth rhaglenni economaidd a sgilio cenedlaethol a rhanbarthol, gan sicrhau gwyro ymyrraeth i Feirionnydd | **Denu a Gwyro Adnoddau**<br>Denu adnoddau o raglenni cyflogaeth sgilio strategol (megis y rhaglenni nodir isod) a'u gwyro i Feirionnydd gan dargedu'r Cymunedau o Angen, gan gynnwys Tywyn | 2010 ymlaen |
| | | **Cronfa Fuddsoddi Strategol (SIF)**<br>Adnabod a thargedu cyfleon i fuddsoddi ym Meirionnydd | I'w ddatblygu |
| | | **Cronfa Fuddsoddi Strategol Cyfalaf (SCIF)**<br>Adnabod a thargedu cyfleon i fuddsoddi ym Meirionnydd | I'w ddatblygu |
| | | **Grantiau i Fusnesau**<br>Cefnogi gwelliannau mewn busnesau lleol trwy'r Gronfa Fuddsoddi Lleol (LIF) | 2011 ymlaen |
| | | **Siapio'r Dyfodol**<br>Manteisio ar gynllun penodol gan y diwydiant niwclear i ddarparu hyfforddiant, cymorth mentora a chyngor marchnad lafur i weithlu safle Atomfa Trawsfynydd | 2010 ymlaen |
| | | **Cronfa Datblygu Gwledig (RDP)**<br>Adnabod cyfleon i gefnogi mentrau gwledig mwy lleol ym Meirionnydd | 2010 ymlaen |
| | | **Prosiect Twristiaeth Treftadaeth (CADW a'r Cynulliad)**<br>Adnabod a thargedu cyfleon i fuddsoddi ym Meirionnydd | I'w ddatblygu |
| | | **Cymunedau'n Gyntaf**<br>Parhau efo'r gefnogaeth i gymunedau Blaenau Ffestiniog ac Abermaw gan gynnwys mentrau sy'n sgilio a chysylltu trigolion di-waith efo cyfleon gwaith yn lleol | Parhaus |

Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

# ANECS 1 : DATA

Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

# Y GWEITHLU POSIB DETHOLIAD DATA

## YSTADEGAU HAWLWYR BUDD-DAL CHWILIO AM WAITH TABL CRYNO SEFYLLFA RHAGFYR 2009

### Hawlwyr JSA Bob Oed – canran o'r boblogaeth waith

| Ardal | Hawlwyr JSA (Pob oed) | % o'r Hawlwyr fyny at 6 mis | % o'r Hawlwyr Dros 12 mis |
|---|---|---|---|
| **Meirionnydd** | **3.4** | **72.2** | **16.7** |
| Gwynedd | 3.5 | 71.6 | 14.4 |
| Cymru | 4.3 | 66.5 | 13.7 |
| DG | 4.1 | 65.2 | 13.8 |

### Hawlwyr JSA Dan 25 – canran holl hawlwyr JSA

| Ardal | Hawlwyr JSA (Dan 25) | % o'r Hawlwyr fyny at 6 mis | % o'r Hawlwyr Dros 12 mis |
|---|---|---|---|
| **Meirionnydd** | **32.4** | **27.6** | **1.6** |
| Gwynedd | 34.0 | 28.8 | 1.3 |
| Cymru | 34.6 | 26.5 | 1.8 |
| DG | 29.9 | 23.3 | 1.1 |

## HAWLWYR BUDD-DAL CHWILIO AM WAITH A DERBYNWYR BUDD-DALIADAU ALLAN O WAITH ARDALOEDD LLEOL MEIRIONNYDD

| ARDAL | WARDIAU | POBLOGAETH OED GWAITH | NIFER JSA | JSA DAN 25 OED | BUDD-DALIADAU ALLAN O WAITH |
|---|---|---|---|---|---|
| **DOLGELLAU** | • Dolgellau Gogledd<br>• Dolgellau De<br>• Brithdir/Llanfachreth/ Ganllwyd/Llanelltyd<br>• Corris/Mawddwy | 3,162 | 78 | 34 | 365 |
| **FFESTINIOG-TRAWSFYNYDD** | • Bowydd a Rhiw<br>• Diffwys a Maenofferen<br>• Teigl<br>• Trawsfynydd<br>• Penrhyndeudraeth | 5,101 | 215 | 62 | 755 |
| **ARDUDWY** | • Abermaw<br>• Dyffryn Ardudwy<br>• Llanbedr<br>• Harlech | 4,065 | 142 | 46 | 485 |
| **PENLLYN** | • Y Bala<br>• Llandderfel<br>• Llanuwchllyn | 2,598 | 72 | 24 | 260 |
| **BRO DYSYNNI** | • Aberdyfi<br>• Bryncrug/Llanfihangel<br>• Llangelynin<br>• Tywyn | 3,871 | 128 | 40 | 490 |

# MATHAU O SWYDDI Y CEISIR RHAGFYR 2009

## MEIRIONNYDD

| MATH SWYDD | NIFER | LLEOLIAD |
|---|---|---|
| Rheolwyr ac Uwch Swyddogion | 15 | Dolgellau Gogledd (5)<br>Trawsfynydd (5)<br>Tywyn (5) |
| Galwedigaethau Proffesiynol | 15 | Abermaw (5)<br>Bowydd a Rhiw (5)<br>Tywyn (5) |
| Proffesiynol Perthynol a Thechnegol | 25 | Abermaw (5)<br>Diffwys a Maenofferen (5)<br>Llangelynin (5)<br>Teigl (5)<br>Tywyn (5) |
| Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 30 | Abermaw (5)<br>Bowydd a Rhiw (5)<br>Dyffryn Ardudwy (5)<br>Teigl (5)<br>Trawsfynydd (5)<br>Tywyn (5) |
| Crefftau Sgilgar | 100 | Aberdyfi (5)<br>Abermaw (10)<br>Bala (10)<br>Bowydd a Rhiw (10)<br>Brithdir/Llanfachreth/Ganllwyd (5)<br>Bryncrug/Llanfihangel (5)<br>Diffwys a Maenofferen (5)<br>Dolgellau De (5)<br>Harlech (5)<br>Llandderfel (5)<br>Llangelynin (5)<br>Penrhyndeudraeth (10)<br>Teigl (10)<br>Trawsfynydd (5)<br>Tywyn (5) |
| Gwasanaethau Personol | 25 | Abermaw (10)<br>Bowydd a Rhiw (10)<br>Diffwys a Maenofferen (5) |
| Gwerthiant a Gofal Cwsmer | 105 | Aberdyfi (5)<br>Abermaw (15)<br>Bala (5)<br>Bowydd a Rhiw (5)<br>Brithdir/Llanfachreth/Ganllwyd 5)<br>Diifwys a Maenofferen (5)<br>Dolgellau De (5)<br>Dyffryn Ardudwy (5)<br>Harlech (5)<br>Llanbedr (5)<br>Llandderfel (5)<br>Llangelynin (10)<br>Penrhyndeudraeth (5)<br>Teigl (10)<br>Trawsfynydd (5)<br>Tywyn (10) |
| Gweithredwyr Peiriannau a Phrosesu | 55 | Abermaw (10)<br>Bala (10)<br>Bowydd a Rhiw (10)<br>Diffwys a Maenofferen (5)<br>Dolgellau De (5)<br>Teigl (5)<br>Tywyn (10) |
| Galwedigaethau Elfennol | 195 | Aberdyfi (5)<br>Abermaw (25)<br>Bala (15)<br>Bowydd a Rhiw (20)<br>Brithdir/Llanfachreth/Ganllwyd (5)<br>Bryncrug/Llanfihangel (5)<br>Corris/Mawddwy (10)<br>Diffwys a Maenofferen (10)<br>Doglellau Gogledd (10)<br>Dolgellau De (10)<br>Dyffryn Ardudwy (5)<br>Harlech (10)<br>Llandderfel (5)<br>Llangelynin (10)<br>Penrhyndeudraeth (5)<br>Teigl (15)<br>Trawsfynydd (10)<br>Tywyn (20) |

Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

# SWYDDI A STRWYTHUR CYFLOGAETH DETHOLIAD DATA

## FAINT O SWYDDI SYDD AR GAEL?

NIFER SWYDDI AR GAEL YN Y CANOLFANNAU GWAITH

| ARDAL | NIFER SWYDDI | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mehefin 2009 | Rhagfyr 2009 | Ionawr 2010 | Newid +/- |
| Arfon | 254 | 288 | 162 | -92 (-36.2%) |
| Dwyfor | 162 | 55 | 137 | -25 (-15.4%) |
| Meirionnydd | 143 | 52 | 110 | -33* (-23.1%) |
| Gwynedd | 559 | 395 | 409 | -150 (-26.8%) |
| Cymru | 14,411 | 13,812 | 12,064 | -2,347 (-16.3%) |
| GB | 253,363 | 262,546 | 222,171 | -31,192 (-12.3%) |

## FAINT O SWYDDI SYDD AR GAEL?

NIFER SWYDDI AR GAEL YN Y CANOLFANNAU GWAITH

| ARDAL LEOL | NIFER SWYDDI | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mehefin 2009 | Rhagfyr 2009 | Ionawr 2010 | Newid +/- |
| Dolgellau | 57 | 13 | 73 | +16 (+28%) |
| Ffestiniog-Trawsfynydd | 21 | 9 | 17 | -4 (-19%) |
| Ardudwy | 31 | 18 | 7 | -24 (-77%) |
| Penllyn | 17 | 8 | 11 | -6 (-35%) |
| Bro Dysynni | 18 | 4 | 2 | -16 (-89%) |
| **CYFANSWM** | 144 | 52 | 110 | -34 (-24%) |



## MATHAU O SWYDDI AR GAEL YM MEIRIONNYDD CANOLFANNAU GWAITH RHAGFYR 2009

| MATH SWYDD | NIFER | LLEOLIAD |
|---|---|---|
| Rheolwr Dosbarthu, Storfa a Mânwerthu | 1 | Bowydd a Rhiw |
| Proffesiynol Iechyd | 2 | Dolgellau De<br>Penrhyndeudraeth |
| Proffesiynol Perthynol Iechyd | 1 | Penrhyndeudraeth |
| Proffesiynol Perthynol Lles Cymdeithasol | 1 | Brithdir a Llanfachreth |
| Proffesiynol Perthynol Cyfreithiol | 1 | Penrhyndeudraeth |
| Gwerthiant a Phroffesiynol Perthynol | 3 | Dolgellau Gogledd |
| Gweinyddol a Chyllid | 1 | Harlech |
| Ysgrifenyddol a Galwedigaethol Cysylltiedig | 2 | Dolgellau Gogledd<br>Penrhyndeudraeth |
| Crefftau Trydanol | 8 | Harlech (7)<br>Trawsfynydd |
| Crefftau Adeiladu | 3 | Brithdir a Llanfachreth |
| Crefftau Darparu Bwyd | 3 | Aberdyfi<br>Llanuwchllyn (2) |
| Gofal Iechyd a Gwasanaethau Personol Cysylltiedig | 4 | Llanbedr |
| Cynorthwywyr Gwerthu ac Arianwyr Mânwerthu | 1 | Abermaw |
| Gyrrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth | 1 | Dolgellau Gogledd |
| Gyrrwyr a Gweithredwyr Peiriannau Symudol | 1 | Harlech |
| Galwedigaethau Elfennol Adeiladwaith | 6 | Dolgellau Gogledd (3)<br>Llanbedr (3) |
| Galwedigaethau Elfennol Nwyddau a Storfa | 1 | Bowydd a Rhiw |
| Galwedigaethau Elfennol Gwasanaethau Personol | 8 | Aberdyfi<br>Harlech<br>Llanuwchllyn (4)<br>Tywyn (2) |
| Galwedigaethau Elfennol Glanhau | 4 | Llandderfel (2)<br>Trawsfynydd (2) |

## AMCAN O NATUR SWYDDI'R GWEITHLU

| ARDAL | GWEITHWYR | |
|---|---|---|
| | % Llawn Amser | % Rhan Amser |
| Arfon | 60.5 | 39.5 |
| Dwyfor | 62.7 | 37.3 |
| **Meirionnydd** | **63.0** | **37.0** |
| Gwynedd | 61.4 | 38.5 |
| Cymru | 66.4 | 33.6 |
| GB | 68.4 | 31.2 |

# STRWYTHUR ECONOMI MEIRIONNYDD - SECTORAU

**Annual Business Inquiry (- Employee Analysis SIC 2007) 2008**

| Industry | Dosbarth Meirionnydd District | | Gwynedd | | Cymru / Wales | | Prydain Fawr Great Britain | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nos | % | Nos | % | Nos | % | Nos | % |
| A : Agriculture, forestry and fishing (!) | 91 | 1.0 | 200 | 0.4 | 16,005 | 1.4 | 225,129 | 0.8 |
| B : Mining and quarrying | * | * | * | * | 2,069 | 0.2 | 54,974 | 0.2 |
| C : Manufacturing | 1,063 | 11.2 | 3,560 | 7.4 | 156,403 | 13.2 | 2,531,284 | 9.5 |
| D : Electricity, gas, steam and air conditioning supply | * | * | * | * | 3,968 | 0.3 | 78,992 | 0.3 |
| E : Water supply; sewerage, waste management and remediation activities | * | * | 409 | 0.9 | 8,155 | 0.7 | 154,140 | 0.6 |
| F : Construction | 594 | 6.3 | 2,321 | 4.8 | 63,996 | 5.4 | 1,351,723 | 5.1 |
| G : Wholesale and retail trade; repair of motor vehicles and motorcycles | 1,517 | 16.0 | 8,476 | 17.6 | 188,183 | 15.9 | 4,393,676 | 16.5 |
| H : Transportation and storage | 258 | 2.7 | 1,349 | 2.8 | 41,700 | 3.5 | 1,251,129 | 4.7 |
| I : Accommodation and food service activities | 1,536 | 16.2 | 6,501 | 13.5 | 83,694 | 7.1 | 1,800,787 | 6.8 |
| J : Information and communication | 74 | 0.8 | 917 | 1.9 | 23,068 | 1.9 | 997,451 | 3.7 |
| K : Financial and insurance activities | * | * | 756 | 1.6 | 30,040 | 2.5 | 1,071,334 | 4.0 |
| L : Real estate activities | 114 | 1.2 | 346 | 0.7 | 11,625 | 1.0 | 366,129 | 1.4 |
| M : Professional, scientific and technical activities | 141 | 1.5 | 1,246 | 2.6 | 42,526 | 3.6 | 1,821,026 | 6.8 |
| N : Administrative and support service activities | 157 | 1.7 | 1,671 | 3.5 | 76,755 | 6.5 | 2,188,981 | 8.2 |
| O : Public administration and defence; compulsory social security | 612 | 6.5 | 4,531 | 9.4 | 89,544 | 7.6 | 1,440,802 | 5.4 |
| P : Education | 1,006 | 10.6 | 5,445 | 11.3 | 121,701 | 10.3 | 2,503,107 | 9.4 |
| Q : Human health and social work activities | 1,440 | 15.2 | 7,918 | 16.5 | 177,636 | 15.0 | 3,242,953 | 12.2 |
| R : Arts, entertainment and recreation | 280 | 3.0 | 965 | 2.0 | 26,123 | 2.2 | 646,259 | 2.4 |
| S : Other service activities | 290 | 3.1 | 889 | 1.9 | 19,857 | 1.7 | 557,324 | 2.1 |
| T : Activities of households as employers;undifferentiated goods-and services-producing activities of households for own use | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| U : Activities of extraterritorial organisations and bodies | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 |
| **Total** | **9,471** | **100.0** | **48,058** | **100.0** | **1,183,045** | **100.0** | **26,677,201** | **100.0** |

*** CONFIDENTIAL DATA : 1947 STATISTICS OF TRADE ACT These figures must NOT be passed onto a third party (ie, appear in a paper / report / / thesis or passed verbally to anyone not named on your Notice).**

***(!) These figures are aggregates from which farm agriculture (SIC class 0100) have been excluded.***

*ONS Crown Copyright Reserved [from Nomis on 15 March 2010]*



# YMHLE MAE'R GYFLOGAETH BRESENNOL?

## PATRWM BRAS O DDOSBARTHIAD MANNAU GWAITH A GWEITHWYR AR DRAWS MEIRIONNYDD

| ARDAL | WARDIAU | BRAS-AMCAN NIFER MANNAU GWAITH* | BRAS-AMCAN NIFERYN CAEL EU CYFLOGI* |
|---|---|---|---|
| **DOLGELLAU** | • Dolgellau Gogledd<br>• Dolgellau De<br>• Brithdir/Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd<br>• Corris/Mawddwy | 275 | 1,210 |
| **FFESTINIOG-TRAWSFYNYDD** | • Bowydd a Rhiw<br>• Diffwys a Maenofferen<br>• Teigl<br>• Trawsfynydd<br>• Penrhyndeudraeth | 270 | 725 |
| **ARDUDWY** | • Abermaw<br>• Dyffryn Ardudwy<br>• Llanbedr<br>• Harlech | 285 | 850 |
| **PENLLYN** | • Y Bala<br>• Llandderfel<br>• Llanuwchllyn | 210 | 680 |
| **BRO DYSYNNI** | • Aberdyfi<br>• Bryncrug/Llanfihangel<br>• Llangelynin<br>• Tywyn | 285 | 755 |
| **MEIRIONNYDD** | | 1,495 ¶ | 9,470 ¶ |

* - Ddim yn cynnwys daliadau amaeth

## PATRWM MANNAU GWAITH – BRASAMCAN A CHYMHARIAETH

| ARDAL | NIFER MANNAU GWAITH* | | | |
|---|---|---|---|---|
| | YN CYFLOGI 0-10 | YN CYFLOGI 11-49 | YN CYFLOGI 50-199 | YN CYFLOGI 200+ |
| Arfon | 1,917 | 324 | 66 | d/g |
| Dwyfor | 1,284 | 145 | d/g | d/g |
| **Meirionnydd** | **1,315** | **161** | **22** | **d/g** |
| Gwynedd | 4,516 | 630 | 103 | d/g |
| Cymru | 86,541 | 12,954 | 3,047 | 698 |
| GB | 2,078,698 | 282,058 | 69,286 | 15,973 |

* - Ddim yn cynnwys daliadau amaeth
**d/g** - Does dim digon o wybodaeth ar gael

## PATRWM DOSBARTHIAD Y CYFLOGEDIG – AMCANGYFRIF

| ARDAL | NIFER SY'N CAEL EU CYFLOGI MEWN MANNAU GWAITH* | | | |
|---|---|---|---|---|
| | MAINT 0-10 GWEITHIWR | MAINT 11-49 GWEITHIWR | MAINT 50-199 GWEITHIWR | MAINT 200+ GWEITHIWR |
| Arfon | 5,803 | 6,989 | 5,808 | 11.404 |
| Dwyfor | 3,735 | 2,872 | 1,425 | 551 |
| Meirionnydd | 3,665 | 3,331 | 1,988 | 487 |
| Gwynedd | 13,203 | 13,192 | 9,221 | 12,442 |
| Cymru | 247,815 | 287,919 | 274,272 | 359,051 |
| GB | 5,5573,871 | 6,298,758 | 6,258,522 | 8,362,454 |

* - Ddim yn cynnwys daliadau amaethyddol





# SEFYLLFA FFYNIANT YR ARDAL DETHOLIAD DATA

## Y DARLUN ARFEROL O SEFYLLFA AMDDIFADEDD

### YN ÔL FFACTORAU MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU 2008

Nifer Ardaleodd Cyfrif yn y 30% Mwyaf Amddifad yng Nghymru

| ARDAL | PARTHAU | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Cyflogaeth | Iechyd | Addysg | Mynediad i Wasanaethau | Tai | Amgylchedd Ffisegol | Diogelwch Cymunedol |
| **Arfon** | 5 | 4 | 7 | 4 | 15 | 26 | 5 | 11 |
| **Dwyfor** | 1 | 0 | 0 | 0 | 13 | 15 | 5 | 2 |
| **Meirionnydd** | 3 | 0 | 2 | 0 | 14 | 20 | 3 | 3 |
| **Gwynedd** | 9 | 4 | 9 | 4 | 42 | 61 | 13 | 16 |

# Y DARLUN ARFEROL O SEFYLLFA AMDDIFADEDD

## YN ÔL FFACTORAU MYNEGAI AMDDIFADEDD LLUOSOG CYMRU 2008

### Ardaloedd Cyfrif Meirionnydd Gyda Parthau yn y 30% Mwyaf Amddifad yng Nghymru

| ARDAL | PARTHAU | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Incwm | Cyflogaeth | Iechyd | Addysg | Mynediad i Wasanaeth | Tai | Amgylchedd Ffisegol | Diogelwch Cymunedol |
| Bowydd a Rhiw | x | | | | x | x | x | x |
| Diffwys a Manofferen | x | | | | | x | | |
| Tywyn 2 | x | | x | | | x | | |
| Abermaw 2 | | | x | | | x | | x |
| Teigl | | | | | x | x | | |
| Abermaw 1 | x | | | | | x | | |
| Llangelynin | | | | | x | x | x | |
| Corris Mawddwy | | | | | x | x | | |
| Llandderfel a Llanuwchllyn 1 | | | | | x | x | | |
| Trawsfynydd | | | | | x | x | | |
| Dyffryn Ardudwy | | | | | x | x | | |
| Dolgellau De | | | | | | x | | |
| Llanbedr | | | | | x | | | |
| Dolgellau Gog | | | | | | x | | |
| Harlech | | | | | x | x | | |
| Aberdyfi | | | | | x | x | | |
| Penrhynd'raeth 1 | | | | | x | x | | |
| Tywyn 1 | | | | | | x | | |
| Bala | | | | | | | | |
| Llandderfel a Llanuwchllyn 2 | | | | | x | | | |
| Penrhynd'raeth 2 | | | | | | x | | |
| Bryncrug/ Llanfihangel | | | | | x | x | x | |
| Brithdir a Llanfachreth | | | | | x | x | | |



# DARLUN CYMHAROL SEFYLLFA INCWM AELWYDYDD

### (a) Gwynedd

| Ardal | Canran Aelwydydd / Bandiau Incwm Blynyddol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | At £10k | At £15k | At £20k | At £25k |
| Arfon | 9.6 | 21.7 | 35.8 | 49.2 |
| Dwyfor | 9.8 | 22.2 | 36.7 | 50.6 |
| **Meirionnydd** | **10.1** | **22.9** | **37.7** | **51.8** |

### (b) Wardiau Meirionnydd Is eu Hincwm na'r Cyfartaledd Ardal

| Ward | Canran Aelwydydd / Bandiau Incwm Blynyddol | | | |
|---|---|---|---|---|
| | At £10k | At £15k | At £20k | At £25k |
| Bowydd a Rhiw | 12.0 | 26.6 | 43.0 | 57.9 |
| Tywyn | 11.8 | 26.4 | 42.7 | 57.6 |
| Dolgellau De | 11.6 | 25.9 | 41.9 | 56.5 |
| Diffwys a Maenofferen | 11.3 | 25.2 | 41.0 | 55.6 |
| Abermaw | 11.0 | 24.7 | 40.2 | 54.7 |
| Trawsfynydd | 11.0 | 24.6 | 40.2 | 54.7 |
| Dyffryn Ardudwy | 10.9 | 24.5 | 40.2 | 55.0 |
| Bryncrug/Llanfihangel | 10.9 | 24.4 | 40.1 | 54.9 |
| Corris Mawddwy | 10.8 | 24.3 | 39.8 | 54.2 |
| Y Bala | 10.8 | 24.3 | 39.7 | 54.0 |
| Llangelynin | 10.3 | 23.3 | 38.4 | 52.7 |

# Y GALLU I BRYNU T

## WARDIAU MEIRIONNYDD

| ARDAL | WARD | CYMHAREB INCWM CANOLRIF : PRIS TY |
|---|---|---|
| **Dolgellau** | Dolgellau Gog | 7.4 : 1 |
| | Dolgellau De | 6.4 :1 |
| | Brithdir & Llanfachreth<br>Ganllwyd<br>Llanelltyd | 10.3 : 1 |
| | Corris Mawddwy | 5.3 :1 |
| **Ffestiniog -Trawsfynydd** | Bowydd a Rhiw | 4 :1 |
| | Diffwys & Manenofferen | 2.7 :1 |
| | Teigl | 3.3 :1 |
| | Trawsfynydd | 3.7 :1 |
| | Penrhyndeudraeth | 4.5 :1 |
| **Ardudwy** | Abermaw | 8.2 :1 |
| | Dyffryn Ardudwy | 5.9 :1 |
| | Llanbedr | 8.1 :1 |
| | Harlech | 5.4 :1 |

| ARDAL | WARD | CYMHAREB INCWM : PRIS TY |
|---|---|---|
| **Penllyn** | Y Bala | 6.1 : 1 |
| | Llandderfel | 7.1 :1 |
| | Llanuwchllyn | 8.8 :1 |
| **Bro Dysynni** | Aberdyfi | 9.4 :1 |
| | Bryncrug /Llanfihangel | 6.1 :1 |
| | Llangelynin | 6.7 :1 |
| | Tywyn | 6.5 :1 |

| | |
|---|---|
| Gwynedd | 6.3 :1 |



# Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd ANECS 2; GWYBODAETH STRATEGOL AC YMCHWIL

## Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

## Gwybodaeth Strategol

### CYNLLUN GOFODOL CYMRU

### Cefndir

Pwrpas Cynllun Gofodol Cymru yn fras ydi cyflwyno dull o gynllunio yn ddaearyddol er mwyn cyd-gysylltu gweithgareddau yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol – a hynny ar draws llywodraeth, sefydliadau eraill ac ar draws ffiniau gweinyddol.

Bwriedir i'r Cynllun Gofodol bennu cyfeiriad a blaenoriaethau strategol 6 Ardal Ofodol Cymru, gan ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol, llywio cynlluniau datblygu, ac hefyd lywio ac alinio penderfyniadau buddsoddi.

Mae Meirionnydd o fewn Ardal Canol Cymru.

Diweddarwyd y Cynllun Gofodol, ac hefyd gynlluniau'r Ardaloedd yn 2008.

### Cynllun Ardal Canol Cymru – Detholiad Perthnasol

### (a) Gweledigaeth

***Safon byw a gweithio uchel mewn aneddiadau llai eu maint o fewn amgylchedd gwych, gan ddarparu modelau deinamig o ddatblygu gwledig cynaliadwy, gan symud pob sector i weithgareddau sy'n cynnig gwerth ychwanegol'***

Mae'r weledigaeth hon yn cydnabod ac yn diffinio'r cyfuniad unigryw o nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n perthyn i Ganol Cymru a'r berthynas agos sy'n bodoli rhyngddynt. Gyda'i gilydd, mae'r gwerthoedd hyn yn nodi mai'r Ardal hon o fewn y Cynllun Gofodol yw canolbwynt y bywyd gwledig ac un o storfeydd cyfalaf amgylcheddol Cymru.

### (b) Dynodiad Lleoedd

Mae'n flaenoriaeth allweddol o fewn y Cynllun Gofodol i adeiladu ar y canolfannau allweddol pwysig Canol Cymru, gan wella ar y cysylltiadau a gwasgaru manteision a thwf i'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Nodir parth Prif Glwstwr Aneddiadau (yn hytrach na Both) fel fframwaith ar gyfer datblygu Meirionnydd, gyda threfi'r clwstwr yn cael eu cyfrif yn Aneddiadau Allweddol, gyda thref Dolgellau yn y canol, a Dolgellau yn derbyn dynodiad Prif Anheddiad Allweddol sydd i'w Ddatblygu, i gydnabod ei rôl strategol o fewn Meirionnydd.

### (c ) Rhai Pwyntiau Penodol

#### Hybu Economi Gynaliadwy

Mae creu economi fodern, sy'n defnyddio ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ei phobl, yn allweddol ar gyfer dyfodol cynaliadwy ardal Canol Cymru.

- ***Sector Amaeth***

Mae amaethyddiaeth Canol Cymru yn seiliedig yn bennaf ar ffermydd teuluol sy'n ymwneud â chynhyrchu cig a llaeth. Mae diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol wedi datgysylltu cymorthdaliadau oddi wrth gynhyrchu ac mae ffermwyr yn addasu i rymoedd y farchnad. Mae angen ychwanegu gwerth at gynhyrchu o hyd, gan farchnata'n weithgar drwy weithio mwy clòs rhwng cynhyrchwyr, cyflenwyr a gwerthwyr, gan ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd lleol sy'n bodoli eisoes yn y sectorau bwyd-amaeth a phrosesu bwyd, yn ogystal â datblygu cynnyrch arbenigol newydd sydd heb fod yn fwyd amaethyddol. Mae parhau i gefnogi amaethyddiaeth yn gyffredinol i amddiffyn a datblygu cynhyrchu bwyd ac i wella diogelwch bwyd hefyd yn bwysig. Mae integreiddio ffermio, twristiaeth a bwyd o ansawdd yn cynnig cyfle arwyddocaol ar gyfer yr Ardal.

- ***Sector Gwasanaethau***

Blaenoriaeth arall yw datblygu twf cryf posibl y sector gwasanaethau drwy, er enghraifft, gyfleoedd newydd a dyfeisgar ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.

- ***Sectorau Amgylcheddol, Diwylliant ac Arloesedd***

Mae asedau amgylcheddol a diwylliannol yr Ardal yn cynnig cyfle i ddatblygu clystyrau busnes brodorol arbenigol sy'n canolbwyntio ar dechnolegau sinc carbon, technolegau ynni adnewyddadwy amgen, cynhyrchion naturiol newydd, diwydiannau creadigol a'r sgiliau a'r arbenigedd presennol yn y ddaear, y tir, gwyddorau'r amgylchedd a'r môr, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd drwy'r sector addysg uwch gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth, eu gwaith partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ar Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig. Bydd hyn, ynghyd â'r systemau cerbyd awyr di-griw, sectorau cyfryngau a thechnoleg, dadgomisiynu Gorsaf B□er Niwclear Trawsfynydd a gwasanaethau cymorth integredig i fusnesau, o gymorth i greu cyfleoedd busnes ychwanegol uchel eu gwerth ar gyfer yr Ardal.

- ***Cynhyrchu a'r Sector Gweithgynhyrchu***

Er mwyn cyflawni'r datblygiad cynaliadwy a'r twf priodol sy'n ofynnol i adeiladu cadernid i'r economi rhanbarthol, mae angen cefnogi mentrau micro a chymdeithasol a hyrwyddo datblygiad brodorol a chynhyrchu lleol, gan gynnwys marchnadoedd arbenigol. Yn yr un modd, mae angen cadw ac atgyfnerthu natur gystadleuol gweithgynhyrchu arbenigol yr Ardal ……………….... Bydd angen adfywio ac ymyriadau buddsoddi i ymdrin â diffyg cyfredol cyfleustodau o ran capasiti. Mae hyn yn rhwystr sylweddol i ddatblygiad mewn rhai rhannau o'r Ardal. Bydd hefyd angen rhoi sylw i faterion perifferoldeb a chyrchu marchnadoedd drwy fesurau seilwaith priodol gan gynnwys safleoedd ac eiddo, trafnidiaeth a TGCh.

- ***Sector Twristiaeth***

Nodwyd bod twristiaeth fewndirol ac arfordirol yn sector allweddol ar gyfer twf yn yr Ardal, gan fod ansawdd eithriadol y tirwedd a'r amgylchedd naturiol, ynghyd ag ymdeimlad cryf o ddiwylliant a threftadaeth, yn denu nifer o ymwelwyr. Mae Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri yn atyniadau gyda'r gorau yn y byd, ac mae arfordir trawiadol yr Ardal a'r ardaloedd o harddwch naturiol hefyd yn ychwanegu at brofiad yr ymwelydd.

- ***Hygyrchedd a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu***

Amlygwyd pwysigrwydd TGCh lled band uchel o ran hygyrchedd, twf economaidd a mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig yn y prif aneddiadau a'r ardaloedd ymylol ehangach gan bartneriaid Cynllun Gofodol Canol Cymru. Mae rhai ardaloedd gwledig yng Nghanol Cymru'n parhau heb fynediad i fand eang lled band uchel (2MB) fforddiadwy, yn dioddef diffyg gwasanaeth telathrebu symudol ac o bosibl, yn y dyfodol, yn dilyn y newid i ddigidol yn 2009 y byddant heb wasanaeth digidol. Er mwyn cyflawni'r manteision economaidd a chymdeithasol posibl ar gyfer Canol Cymru y gall TGCh lled band uchel a gwasanaethau digidol eu cynnig, ac er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch digidol cynyddol mewn ardaloedd gwledig, nodwyd nifer o flaenoriaethau:

- Darparu cyswllt arloesol, cyflym ar gyfer safleoedd cyflogaeth / aneddiadau strategol ac i ardaloedd gwledig ehangach;
- Mynd i'r afael â'r mannau sy'n parhau heb fand eang drwy fabwysiadu dull cynhwysedd y filltir gyntaf / olaf;
- Darparu cefnogaeth ar lefel integreiddio systemau er mwyn gwella prosesau busnes;
- Sicrhau bod signalau ffôn symudol y tri phrif weithredwr ar gael yn holl brif goridorau cysylltedd y rhanbarth;
- Darparu hyfforddiant TGCh er mwyn mynd i'r afael ag anghenion busnes, galluogi a chefnogi mwy o weithio o gartref ac ymelwa mwy ar TGCh yn y gymuned;

- ***Parchu Nodweddion Unigryw***

Mae natur unigryw, ymdeimlad o hunaniaeth a balchder mewn lleoliad, yn elfennau pwysig o gymunedau a gwledydd llwyddiannus a chreadigol. Nodweddir tirwedd ddiwylliannol Canol Cymru'n gyffredinol gan ei threftadaeth, ei thirlwedd a'i hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol unigryw. Gall pob un o'r rhain chwarae rhan allweddol mewn denu pobl i'r ardal a chreu cyfleoedd i ddathlu a hyrwyddo.

Mae'r cymunedau hyn yn arddangos llawer o nodweddion amgylcheddol diwydiannol, poblogaeth a threftadaeth amrywiol ac unigol, gyda chydlyniant cymunedol cryf, sy'n aml yn rhoi ymdeimlad unigryw o le neu gymuned. Gan gofio hynny wrth gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Canol Cymru gyfan mae'n bwysig sicrhau na chollir arbenigrwydd y cymunedau o fewn yr Ardal ond eu bod yn cael eu dathlu a'u hyrwyddo i gadw eu bywiogrwydd ac i helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Bydd angen i ni gynnal a chefnogi cymeriad unigryw ein hamgylchedd hanesyddol Cymreig, heb gyfaddawdu ar anghenion presennol y gymdeithas na'i hanghenion i'r dyfodol…. Mae gwarchod a dathlu treftadaeth a datblygiad yr ardal o ran safleoedd, adeiladau a phobl yn agwedd bwysig ar hyn, fel y mae ailddefnyddio adeiladau segur.





# Casgliadau Ymchwil

## Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

### Terfyn gwaith ar safle Atomfa Trawsfynydd

Oherwydd pryderon difrifol am y sefyllfa economaidd yn dilyn cwblhau gwaith dadgomisiynnu'r atomfa a chau'r safle yn derfynol, comisiynodd Cyngor Gwynedd *Astudiaeth Effaith Economaidd Trawsfynydd* gan gwmni Esys yn 2007.

### Cefndir

Roedd Atomfa Trawsfynydd yn un o'r genhedlaeth gyntaf o orsafoedd cynhyrchu masnachol Magnox gafodd eu comisiynu gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog (CEGB). Cychwynodd y gwaith adeiladu yn 1959 gyda throsglwyddiad cyntaf y pwer i'r grid cenedlaethol yn Ionawr 1965.

Pan gomisiynwyd y gorsafoedd Magnox fe gymerwyd yn ganiataol y byddai ganddynt oes gynhyrchu o ugain mlynedd. Caoedd yr orsaf yn derfynol yn 1991. Cychwynwyd ar wared y tanwydd yn 1993 ac fe gychwynwyd ar y paratoadau ar gyfer gwaith Diogelu, Cynnal a Chadw yn 1995.

Yn 2007 y Cynllun Oes cyfredol oedd mynd i mewn i'r wedd Cynnal a Chadw distaw yn 2016. erbyn hyn byddai'r holl waith ar y safle wedi ei gwblhau am y tro; ar wahân i ddeg i bymtheg staff diogelwch fyddai neb ar ôl yn gweithio ar y safle.

Bu 655 yn gweithio ar y safle – y rhan fwayf o'r gweithwyr yn lleol.

### Mae'r astudiaeth yn nodi:

- Ei bod yn llawer mwy anodd i hybu gweithgaredd economaidd arall fel olynydd mewn ardaloedd anghysbell ac ymylol;
- Fod yr economi leol yn fychan, bregus ac yn or-ddibynol ar un prif gyflogwr (h.y. safle Atomfa Trawsfynydd);
- Yn gyffredinol fod cyfraniad y sectorau cynhyrchu trydan ac adeiladu yn nhermau cyflogau a GVA yn uchel iawn – ond hefyd yn agored i ddisgyniadau economaidd niweidiol a chystadleuaeth o dramor;
- Fod y swyddi ragamcanir i'w colli yn y sector gyfleustodau yn ward Trawsfynydd yn cynrychioli oddeutu 25% o'r sail gyflogaeth ar gyfer yr ardal;
- Fod dwysedd cyflogaeth cymharol isel o 243 swydd per 1000 poblogaeth o fewn economi leol Trawsfynydd o'i gymharu â ffigwr o 313 ar gyfer Gwynedd.
- Fod lefel y gwariant anuniongyrchol sydd o fantais presennol i'r economi leol yn llawer uwch na'r hyn ragamcanwyd yn flaenorol – ac y byddai ei golli yn cael effaith negyddol arwyddocaol ar yr economi leol;
- Rhagamcanir effaith anuniongyrchol cau fel colled o 28 swydd fte ychwanegol (uwchben y golled o 655 swydd), ac fel colled o £15miliwn o gyfraniad lleol GVA ar gyfer ward Trawsfynydd, ac £20miliwn ar gyfer ardal leol CDU 5.